## ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)

### Gwybodaeth am Deithiwr

**1.** Manylion personol—

(a) enw llawn,

(b) rhyw,

(c) dyddiad geni,

(d) rhif pasport, neu gyfeirnod ei ddogfen deithio (fel y bo'n briodol), y dyddiad dyroddi a'r dyddiad y daw'r pasport neu'r ddogfen i ben a'r awdurdod dyroddi,

(e) rhif ffôn,

(f) cyfeiriad cartref,

(g) cyfeiriad e-bost.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**2.** Manylion y daith—

(a) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yng Nghymru y mae'r person yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan reoliad 7(3),

(b) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yn y Deyrnas Unedig y mae P yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan ddarpariaeth gyfatebol mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon,

(c) dyddiad y bydd y person yn cyrraedd y cyfeiriad a bennir yn is-baragraff (a) neu (b), neu'r dyddiad y mae'n bwriadu cyrraedd, fel y bo'n briodol,

(d) y gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef, neu wedi teithio gydag ef, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith,

(e) cyfeirnod yr archeb deithio,

(f) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol),,

(g) enw unrhyw grŵp teithio trefnedig y mae'r person yn teithio neu wedi teithio gydag ef,

(h) y lleoliad yn y Deyrnas Unedig y bydd y person yn ei gyrraedd, neu'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig y mae wedi ei gyrraedd,

(i) y wlad y mae'r person yn teithio drwyddi, neu wedi ymadael ohoni,

(j) y dyddiad a'r amser y bydd y person yn cyrraedd y Deyrnas Unedig neu y mae'n bwriadu ei chyrraedd, fel y bo'n briodol,

(k) a yw'r person yn teithio drwy'r Deyrnas Unedig fel rhan o siwrnai gysylltu i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac, os felly—

(i) lleoliad y man y bydd y person yn ymadael â'r Deyrnas Unedig,

(ii) y wlad sy'n gyrchfan terfynol y person,

(iii) enw'r gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef ar y daith sy'n dilyn, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith sy'n dilyn,

(iv) cyfeirnod archeb deithio'r daith sy'n dilyn,

(v) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol) ar gyfer y daith sy'n dilyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**3.** A yw'r person sy'n darparu gwybodaeth am deithiwr yn gwneud hynny ar ran person arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**4.** Pan fo'r person yn teithio gyda phlentyn y mae ganddo gyfrifoldeb amdano—

(a) enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hwnnw,

(b) perthynas y teithiwr â'r plentyn hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**5.** Enw llawn a rhif ffôn cyswllt brys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 8.6.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/06/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.